SIR GAERFYRDDIN


Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

# Nodiadau Natur

## EBRILL-MEHEFIN 2023

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk



## Gwenynbryfed

Ar yr olwg gyntaf mae'n hawdd camgymryd gwenynbryfed am gacwn. Pryfed ydynt mewn gwirionedd ac nid ydynt yn cnoi nac yn pigo.
Y gwenynbryf tywyll hwn *(Bombylius major*) yw'r un mwyaf cyffredin ac eang ei ddosbarthiad yn y DU (mae 4 rhywogaeth o wenynbryfed yn y DU).
Mae ganddynt gylch bywyd diddorol dros ben – ysglyfaethwr parasitaidd yw'r larfa, sy'n golygu ei fod yn barasit ar wenyn a phicwns (yn bennaf) ac yn lladd ei westeiwr yn y pen draw.
Mae'r fenyw yn 'fflicio' ei hwyau i mewn i nyth gwenynen unig neu'n agos i'r nyth, gan obeithio y bydd yr wyau'n deor yn agos i'r nyth neu ynddo. Yn y pen draw mae'r larfa'n mynd trwy gam arall yn eu datblygiad gan fwyta'r larfae gwenyn! 'Na chi fywyd!



## Blodau Llus


Mae blodau'r Llus (*Vaccinium myrtillus*) yn fach ac o liw gwyrdd-gochlyd.
Mae'n boblogaidd gyda phryfed peillio, gan gynnwys Cacynen y Llys (*Bombus monticola*) sy'n greadur swil ac sy'n brin yn y sir - cafwyd y cofnod diwethaf ym mis Gorffennaf 2022 ar Fynydd Llanllwni. Yn nodweddiadol caiff ei gweld ar fynydd-dir/rhostiroedd uchel dros 300 metr o uchder, ac mae'n well ganddi ardaloedd lle ceir clystyrau o lwyni llus a grug.
Dangoswyd bod gan y gacynen hon lai o oddefiant i wres na rhywogaethau sy'n byw ar dir is. Mae achosion y cwymp yn ei niferoedd yn cynnwys colli cynefinoedd a dirywiad y cynefinoedd hynny, ond efallai bod newid yn yr hinsawdd yn ffactor hefyd?




## Tylluanod Brech

Mae'r Dylluan Frech *(Strix aluco*) hon yn edrych yn fodlon yn ei blwch nythu. Y tylluanod tiriogaethol hyn sy'n gyfrifol am y sŵn a glywir yn fwyaf cyffredin gan dylluanod sef yr alwad 'tyhwit tyhŵ' gyfarwydd a glywir yn y nos.
Rhywogaeth goetir yw'r Dylluan Frech yn bennaf ond mae wedi addasu i fyw bron unrhyw le lle ceir coed, gan gynnwys parciau dinasoedd, gerddi coediog mewn trefi a maestrefi a gwrychoedd ffermdir.
Mamaliaid bach sy'n ffurfio prif ran eu deiet, ond maent yn cymryd cwningod, gwaddod, adar bach, chwilod, pryfed genwair, brogaod a hyd yn oed pysgod.
Mae'n well gan Dylluanod Brech nythu mewn ceudodau coed os ydynt ar gael ond maent yn barod i ddefnyddio blychau nythu pwrpasol.





**Pidyn y Gog**

Mae blodau anarferol Pidyn y Gog (*Arum maculatum*) i'w gweld mewn coedwigoedd/gwrychoedd ar ddechrau'r gwanwyn. Mae gwain o liw gwyrdd gwelw yn amgylchynu pastwn (sbadics) o flodau melyn, bach, sydd yn y pen draw yn ffurfio coesyn o aeron coch trawiadol.

Mae'r blodau wedi'u cuddio o'r golwg, wedi'u clystyru wrth waelod y sbadics gyda chylch o flodau benyw ar y gwaelod a chylch o flodau gwryw uwch eu pennau.

Uwchben y blodau gwryw ceir cylch o flew sy'n ffurfio trap pryfed. Mae arogl y sbadics yn denu pryfed ato ac wedyn cânt eu dal o dan y cylch o flew. Yma cânt eu gorchuddio gan baill y blodau gwryw cyn dianc pan fydd y blew yn cwympo a chludo'r paill i sbadicsau planhigion eraill, lle byddant yn peillio'r blodau benyw.

Mae'n ymddangos bod y sbadics yn arbennig o ddeniadol i gnofilod bach, ac maent i'w gweld wedi eu bwyta'n rhannol. Mae'r sbadics yn cynhyrchu gwres ac arogl yn ôl pob tebyg wrth i'r blodau aeddfedu, a gallai hyn fod yn denu'r cnofilod.

Caiff y planhigyn ei luosogi gan adar wrth iddynt wasgaru'r hadau ar ôl bwyta'r aeron.



## Llyriad yr Ais

Un o blanhigion mwyaf cyffredin y DU, mae Llyriad yr Ais (*Plantago lanceolata*) yn blanhigyn y glaswelltir, ymylon caeau ac ochrau ffyrdd. Mae'n tyfu o'r gwaelod felly gall oroesi pori trwm gan anifeiliaid (neu gael ei dorri gan beiriant torri gwair!). Mae gan ei bennau blodau byr, hirgrwn lawer o flodau unigol.

Caiff gemau sy'n dyddio yn ôl dros ganrifoedd eu chwarae gyda'r planhigyn hwn. Mewn un gêm, yn debyg i chwarae concyrs, caiff coesynnau eu dewis, a chaiff y pennau blodau eu curo yn erbyn ei gilydd, mewn ymryson i weld pa ben sy'n cwympo oddi ar y coesyn yn gyntaf.



## Marddanhadlen Felen

Mae blodau trawiadol y Farddanhadlen Felen (*Lamium galeobdolon*) yn aml yn dilyn clychau'r gog yn ein coetiroedd a'n gwrychoedd. Er ei fod yn edrych yn debyg i ddanadl poethion, nid yw'n pigo.

Mae'r smotiau a'r marciau ar ran isaf y blodyn yn tywys gwenyn tuag at gefn y blodyn a'r neithdar. Wrth iddynt gasglu'r neithdar, caiff paill ei adael ar y stigma - gan arwain at ffrwythloni.

Os cânt eu cleisio mae'r blodau'n rhyddhau arogl cas – nad yw'n angylaidd iawn!



## Rheoli er lles pryfed peillio

Weithiau y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw stopio. Yn yr achos hwn, torri'r gwair. Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gall dorri gwair yn llai aml mewn ardaloedd, naill ai drwy leihau'r toriad i 4-5 wythnos neu ddwywaith y flwyddyn yn unig. Yma yn Cross Hands mae'r effeithiau llesol i'w gweld ar unwaith, gydag amrywiaeth o blanhigion blodeuo yn ymddangos - mae'n edrych yn wych ac yn helpu pryfed peillio hefyd. Mae hi bob amser yn werth gweld beth sy'n aros i flodeuo yn eich glaswellt cyn hau unrhyw 'flodau gwyllt' - efallai y cewch eich synnu.



## Tarianbryf Eirin Tagu

Gellir gweld Tarianbryfed Eirin Tagu (*Dolycoris baccarum*) mewn gwrychoedd, ar ymylon coetir, a hefyd mewn parciau a gerddi. Maent yn flewog - er efallai y bydd yn rhaid i chi edrych yn agos i weld y blew! Mae ganddynt hefyd forder o sgwariau du a gwyn ar gefn y corff, ac antenau du a gwyn. Mae Tarianbryfed Eirin Tagu yn bwyta dail, hadau a ffrwythau amryw o blanhigion, gan gynnwys defnyddio eu gên-rannau tyllu i fwydo ar eirin tagu'r Ddraenen Ddu.
Gall Tarianbryfed ryddhau hylif sy'n arogli'n gryf pan fyddant dan fygythiad.




## Bronwen y Dŵr

Aderyn tew o liw siocled-frown, gyda gwddf gwyn a bron wen, mae Bronwen y Dŵr (*Cinclus cinclus*) i'w gweld yn aml yn eistedd ar garreg mewn afon neu nant, yn bobian i fyny ac i lawr. Mae'n cerdded o dan y dŵr i fwydo ar infertebratau tanddwr megis larfau pryf cerrig a phryf gwellt.

Mae gan fronwen y dŵr drydedd amrant dryloyw o'r enw 'pilen amrannol' y gallant ei chau, gan eu galluogi i weld o dan y dŵr. Maent yn aml yn nythu o dan bontydd ac mae gan Glwb Adar Sir Gaerfyrddin brosiect modrwyo sy'n helpu i fonitro cyfraddau goroesi'r adar a chasglu gwybodaeth am eu symudiadau. – gwybodaeth sy'n darparu cefnogaeth hanfodol ar gyfer ymdrechion cadwraeth a dyma'r cam cyntaf wrth geisio atal y dirywiad ac adfer y niferoedd.




## Chwilen Olew Fioled

Y gwanwyn hwn yn Llangynin gwelwyd poblogaeth iach o Chwilod Olew Fioled (*Meloe violaceus*) ar hyd llwybr troed. Yn wir mae lle i gredu bod hon yn boblogaeth bwysig yng Nghymru o'r rhywogaeth hon sy'n prinhau.

Mae chwilod olew fioled ifanc yn greaduriaid bychain du sy'n dod i'r golwg yn y gwanwyn ac sy'n gorwedd ar flodau wrth aros am ymweliad gan wenyn turio. Maent yn cael reid ar gefn y wenynen, ac yna yn nyth y wenynen maent yn bwyta'r bwyd a gasglwyd gan y wenynen ar gyfer ei rhai ifanc ei hun - dyma felly chwilen sy'n cyfateb i'r gog. Mae hyn yn golygu bod Chwilod Olew Fioled yn arwyddion o boblogaethau gwenyn turio cryf ac o gynefinoedd da sy'n llawn blodau gwyllt.




## Buwch Goch Gota Harlecwin

Mae'r Fuwch Goch Gota Harlecwin (*Harmonia axyridis*) yn rhywogaeth amrywiol iawn - gyda niferoedd amrywiol o smotiau ar gefndiroedd coch, oren neu ddu.

Yn wreiddiol o Asia, cyrhaeddodd y fuwch goch gota harlecwin y DU am y tro cyntaf yn 2004 ac yn fuan daeth yn un o'r rhywogaethau buwch goch gota mwyaf cyffredin yn y wlad, yn enwedig mewn trefi a gerddi. Mae'n ysglyfaethwr brwd - yn gallu cystadlu'n llwyddiannus yn erbyn ein rhywogaethau brodorol am lyslau a bydd hefyd yn bwyta wyau a larfau buchod coch cota eraill. Gall gael sawl deoraid trwy gydol y gwanwyn, yr haf a'r hydref, sydd hefyd yn rhoi mantais gystadleuol iddi.



## Castanwydden

Mae'r Gastanwydden odidog hon (*Aesculus hippocastanum*) yn tyfu yn Ffair-fach. Gall coed aeddfed dyfu i uchder o tua 40 metr a gallant fyw am hyd at 300 mlynedd.

Mae'r Gastanwydden yn frodorol i Orynys y Balcanau a chafodd ei chyflwyno i'r DU o Dwrci ar ddiwedd yr 16eg ganrif. Nid yw i'w gweld yn aml mewn coetir, ond mae'n llawer mwy cyffredin mewn parciau a gerddi neu fel coed stryd.

Mae'r blodau'n ffynhonnell gyfoethog o neithdar a phaill ar gyfer pryfed, yn enwedig gwenyn ac mae chwarae gyda'r concyrs yn gêm boblogaidd gan blant.

Mae lindys Gwyfyn Turio'r Gastanwydden (*Cameraria ohridella*) yn bwydo ar y dail ac os bydd 'pla' yn ffurfio gall dail y goeden droi'n frown a chrino.

Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hyn yn gwneud unrhyw ddifrod parhaol - ond byddwn ni'n cael llai o goncyrs!





## Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
WWBIC West Wales Biodiversity Information Centre Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
National Botanic Garden of Wales Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Coed Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales
West Wales Rivers Trust Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru Wildlife Trust of South & West Wales
Llanelli Naturalists Naturiaethwyr Llanelli
amphibian and reptile conservation
Bat Conservation Trust
Clwb Adar Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Bird Club
Plantlife
Carmarthenshire Meadows Group Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol The National Trust
Peri Natur a Threftadaeth
Bumblebee Conservation Trust
buglife
Mid Wales Red Squirrel Partnership Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch
WWT
Botanical Society of the British Isles
Butterfly Conservation Wales Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru Initiative for Nature Conservation Cymru